Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 06.11.2020

## Cronfa i Fusnesau dan Gyfyngiadau Symud yr ERF dal ar agor

Mae'r galw am elfen Grant Datblygu Busnes y Gronfa Cadernid Economaidd wedi bod yn eithriadol gyda bron i 6,000 o geisiadau wedi dod i law trwy Gymru. Mae'r gronfa wedi'i rhewi, i ganiatáu i asesiad o geisiadau gael ei gynnal. Fodd bynnag, nid yw'r oedi hwn yn effeithio ar elfen gyntaf a llawer mwy y gronfa – y Gronfa i Fusnesau dan Gyfyngiadau Symud yr ERF, sy'n parhau ar agor, ac yn cynnwys Grantiau Ardrethi Annomestig y Cyfyngiadau a Grant Dewisol y Cyfyngiadau. Am fwy o wybodaeth ac i ymgeisio ewch i:

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Busnesau/Cymorth,-cefnogaeth-a-hyfforddiant/Grantiau-cloi.aspx

## Rheoliadau coronafeirws o 9 Tachwedd 2020

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau canllawiau ynghylch rheolau'r coronafeirws fydd yn eu lle o ddydd Llun 9 Tachwedd 2020. Gellir cael hyd iddynt ar y ddolen ganlynol:

https://llyw.cymru/rheoliadau-coronafeirws-canllawiau

Bydd llawer o fusnesau yn cael ailagor, ond hefo mesurau diogelwch mewn lle i weithredu mewn modd saff. Mae busnesau yng Nghymru wedi cael eu hannog i arddangos posteri cod QR ar gyfer ap Covid-19 y GIG yn eu mangreoedd busnes. Serch hynny, mae'n ofynnol i fusnesau sy'n gweithredu mewn lleoliadau risg uchel gasglu gwybodaeth gyswllt. Mae lleoliadau risg uchel yn cynnwys lle bydd cwsmeriaid ac ymwelwyr yn treulio amser hir ar y safle, a/neu o bosibl yn dod i gysylltiad agos â phobl y tu allan i'w cartref (neu aelwyd estynedig os ydynt wedi ffurfio un). Mae enghreifftiau o leoliadau risg uchel y disgwylir iddynt gasglu a chadw gwybodaeth gyswllt yn cynnwys:

- lletygarwch, gan gynnwys tafarndai, bariau, bwytai a chaffis
- sinemâu
- gwasanaethau cysylltiad agos, gan gynnwys siopau trin gwallt a siopau barbwr, gwasanaethau harddwch, gwasanaethau tatŵio, therapyddion chwaraeon a thylino
- pyllau nofio, stiwdios ffitrwydd o dan do, campfeydd, sbâs, a chanolfannau neu gyfleusterau hamdden eraill o dan do
- casinos
- neuaddau bingo
- mannau addoli

- Gwybodaeth i'w chasglu gan y busnesau hyn

Y gofyniad cyfreithiol ydi casglu enw a gwybodaeth person sy'n ddigonol i alluogi cysylltu â'r person, i'w hysbysu y gallai fod wedi bod yn agored i glefyd coronafeirws yn y fangre (gan gynnwys rhif ffôn a'r dyddiad a'r amser yr oedd y person yn y fangre).

# Estyniad i Grant y Cynllun Cymhorthdal Incwm Hunangyflogaeth – SEISS

Mae’r grant yn cael ei ymestyn o 1 Tachwedd 2020 ac mae ar gael ar ffurf dau grant, pob un ar gael am gyfnodau o dri mis rhwng Tachwedd 2020 a Ionawr 2021, a Chwefror 2021 i Ebrill 2021. Bydd y grant am y cyfnod rhwng mis Tachwedd 2020 a mis Ionawr 2021 yn cael ei gyfrifo ar 80% o’r elw masnachu cyfartalog, hyd at uchafswm o £7,500. Bydd y gwasanaeth ar-lein ar gyfer y grant nesaf ar gael o 30 Tachwedd 2020. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:

https://www.gov.uk/government/publications/self-employment-income-support-scheme-grant-extension.cy

# Bwletinau diweddaraf Busnes Cymru / Croeso Cymru

Mae mwy o wybodaeth am y pynciau uchod ym mwletinau diweddaraf Busnes Cymru a Chroeso Cymru, ewch i:

- Bwletin Busnes Cymru
  http://bit.ly/NewBusnesCymru06Tach2020

- Bwletin Croeso Cymru
  http://bit.ly/NewCroesoCymru06Tach2020

# Galwad agored cynllun peilot Siop.io 10 Tachwedd 2020

Os ydych chi yn fusnes bwyd a diod annibynnol wedi ei leoli yng Ngwynedd neu Môn ac yn chwilio am ffordd newydd o werthu eich cynnyrch i gwsmeriaid, ymunwch hefo’r webinar yma i gael gwybod mwy am Siop.io – marchnad ar-lein i fusnesau bwyd a diod lleol! Mae Arloesi Gwynedd Wledig yn chwilio am 15 busnes bwyd a diod yng Ngwynedd a 15 ym Môn i gymryd rhan mewn cynllun peilot i dreialu gwefan/app i werthu eu cynnyrch. I gymryd rhan yn y cynllun peilot mae’n rhaid bod yn:

- Busnes bwyd a diod annibynnol
- Wedi ei leoli yng Ngwynedd neu Môn
- Ddim efo sustem archebu ar-lein ar hyn o bryd, neu hefo un sy’n annigonol

Mae'r weminar yn digwydd am 7:00pm 10 Tachwedd 2020 a gellir cael mwy o wybodaeth a chofrestru yma:

https://bit.ly/3mZiYpy

## Cyfnod Pontio'r DU a'r UE – Gweithredu rŵan ar gyfer rheolau newydd yn 2021

Mae'r DU wedi gadael yr UE, ac mae'r cyfnod pontio ar ôl Brexit yn dod i ben eleni. Mae Llywodraeth y DU newydd ryddhau cyfres o restrau gwirio ar gyfer y sectorau canlynol i baratoi ar gyfer diwedd y cyfnod pontio, o 1 Ionawr 2021. Dilynwch y ddolen ar gyfer pob sector i gael y wybodaeth:

- Sector Diwydiannau Creadigol
  https://bit.ly/3k3AHKC

- Sectorau Gwasanaethau Digidol, Technoleg a Chyfrifiaduron
  https://bit.ly/3p3Hqry

- Sectorau Cyfryngau a Darlledu
  https://bit.ly/3pdGq4i

- Sectorau Telecoms a Gwasanaethau Gwybodaeth
  https://bit.ly/354YN32

- Sectorau Celfyddydau, Treftadaeth a Diwylliant
  https://bit.ly/352S35M

- Sectorau Marchnad Gelf
  https://bit.ly/32jKNRi

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

# Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

# Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

# Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

# FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

# Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch
busnes@gwynedd.llyw.cymru